

Cyngor Cymuned Llanelian (246)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Medi 3, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Helen Woodcock Glenys Jones T Elfyn Hughes
Gordon Hayes Thomas D Jones David Herbert

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths Helen Hughes Cyng Aled Morris Jones

1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio Glenys Jones.

2 Materion yn Codi

2.1 Mainc Pengorffwysfa – Mae wedi dod i sylw'r Cyngor Cymuned nad y Cyngor Sir sydd wedi adnewyddu'r fainc, ac mai Rob K Jones (Ael Eilian) sydd wedi gwneud y gwaith. Y Clerc i ysgrifennu nodyn o ddiolch. CET

2.2 Mae llythyr wedi ei dderbyn gan Gwyn Roberts i ddiolch i'r Cyngor am y noson a drefnwyd iddo ac am y rhodd a gafodd ei gyflwyno.

3 Cynllunio

3.1 Ceisiadau Newydd – trafodwyd tri cais –

- Tyn Rhos Fawr (Barn Sgrinio) – Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r cais yma yn y gorffennol, ond yn teimlo bod angen asesiad os yn bosib i ddatgan yr effaith amgylcheddol.
- Cae Pant (Barn Sgrinio) – Dim sylw – mae'r Cynulliad o blaid arallgyfeirio.
- Hafod y Grug, Cerrig Man (cais llawn) – Dim sylw, mae'r cais amlinellol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor eisioes.

3.2 Penderfyniadau – cafwyd llythyrau gan y Cyngor Sir yn cadarnhau eu penderfyniadau ar y ceisiadau canlynol –

- Arfryn, Llanelian (estyniad) – Caniatad
- Min y Don, Dulas (trac amaethyddol) – Dim angen caniatad
- Tregarth, Llanelian (estyniad) – Caniatad
- Point Lynas (gwaith archwilio daearyddol) – Caniatad
- Tai Newydd, Dulas (estyniad) – Caniatad
- Angorfa, Pengorffwysfa (estyniad) – Caniatad
- Glasfryn, Penysarn (estyniad) – Caniatad
- Cae Pant, Llanelian (barn sgrinio) – Dim angen Asesiad Amgylcheddol.

4 Fferm Wynt Rhiannon

4.1 Cafwyd cyfarfod gyda chynghorau cymuned eraill Gogledd Mon i drafod y datblygiad. Dosbarthwyd copi o'r nodiadau i'r aelodau eisioes er gwybodaeth. Y prif bwyntiau a drafodwyd oedd y diffyg gwybodaeth oedd ar gan y cwmni, ac felly sut nad oedd y cynghorwyr yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau a chynnal trafodaethau ar ran y cymunedau.

4.2 Yn dilyn y cyfarfod, estynwyd gwahoddiad i Mr Dennis Evans ddod i'n cyfarfod ni i drafod y prosiect gan ei fod yn deal mwy o'r ochr dechnegol, ac sut y buasai yn cael effaith ar y gymuned. Er nad oedd yn gallu bod yn bresennol, fe anfonwyd rhestr o bwyntiau i'w ystyried.

4.3 Ar ol edrych ar y lluniau/mirages o'r fferm wynt arfaethiedig, cafwyd trafodaeth ymysg yr aelodau, a chytuno adrodd yn ol i Grwp Gogledd Mon fel y ganlyn – CET

- Diffyg gwybodaeth penodol gan y cwmni yn ei gwneud yn annodd iawn i ddod i benderfyniadau, mae angen diffinio gwahanol opsiynnau a'u heffaith ar y gymuned.
- Pa fudd i'r gymuned leol? Pwysig bod unrhyw fudd/arian yn cael ei gadw yn yr ardaloedd dan sylw a ddim yn cael ei lyncu gan gronfa canolog.
- Faint o ynni fydd yn cael ei gynhyrchu mewn cyd berthynas a'r cymorthdaliadau gan y llywodraeth?
- Problemau iechyd posib – oes archwiliad penodol wedi ei wneud? Ble mae'r adroddiad hwnnw i'w gael?
- Pryder y bydd yr ardal yn cael ei 'steralieiddio' ac na fydd modd datblygu yn y dyfodol –

- ble yn union fydd y ceblau yn cael eu gosod?
- Ble fydd y ceblau yn dod i'r lan? Ardal o harddwch arbennig a thraethau
- Oes angen pump cebl? Y cwmni ddim i weld yn gwybod faint nac yn lle y byddent yn cael eu gosod? Ydi rhoi un cais cynllunio mawr at ei gilydd yn rhatach i'r cwmni na chyflwyno ceisiadau llai, mwy penodol? (buasai rhain yn haws i'w deall a'u dylanwadu gan gynghorau lleol)
- Oes angen trafod safle yr is-orsaf? Os ydi pawb o blaid defnyddio safle Shell yn Rhosgoch, pam gwastraffu arian a dychryn y gymuned wrth edrych am safle arall?
- Pryder na fydd busnesau yn cael eu denu i gogledd Mon gyda prosiect or maint yma yma yn barod.
- Pryder colli twristiaeth i'r ardal
- Pryder cyfyngiadau datblygiadau eraill e.e. tai i bobl lleol yn yr ardal gan fod y ceblau wedi eu gosod eisioes (problemau yn ymwneud a chroesi llwybrau ceblau)
- Si bod goleuadau am gael eu gosod ar pob tyrbin – yn ddibynnol ar maint y tyrbinau a maint y fferm wynt byddent iw gweld yn blaen o'r lan drwy'r dydd a'r nos.
- Pryder sut y bydd y Grid Cenedlaethol yn gallu delio a'r Fferm Wynt a Wylfa B – fydd angen mwy o beilonau ar draws y tir?

Mae cyfarfod nesaf Grwp Gogledd Mon i fod i gymryd lle ddiwedd Medi, gyda'r gobaith o gyfarfod a'r cwmni yn fuan wedyn.

5 Cae Chwarae

5.1 Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ynglyn ag archwilio ac asesu y cae chwarae, mae'n debyg mai ROSPA eu hunain sydd yn cynnig asesiad risg ac archwiliad blynyddol am y pris gorau (£88+taw). Cytuno cysylltu a ROSPA (Royal Society for the Prevention of Accidents) i drefnu archwiliad cyn gynted a phosib. Cynnig D Herbert, Eilio G Jones. CET

5.2 Mae'r offer oedd angen sylw eisioes wedi eu trwsio.

5.3 Mae baw ci yn broblem yn y cae chwarae, er bod arwyddion dim cwn i'w gweld yn blaen. Cytuno cysylltu a'r warden gwn i drefnu ymweliad, a gofyn am fwy o fagiâu baw i'w rhoi yn y post a'r siop. CET

6 Llithfra

6.1 Cafwyd cyfarfod brys o Bartneriaeth y Llithfra i drafod problemau oedd wedi codi. Dosbarthwyd copi o'r cofnodion i bawb oedd yn bresennol, a tharfodwyd y prif bwyntiau.

6.2 Os oes unrhyw broblem yn ymwneud a'r Llithfra mae angen ffonio John Owen (07990 531 594)

6.3 Yn dilyn ail-wynebu'r lon, nid yw'r marciau melyn wedi eu ail-paentio. Mae angen cysylltu a'r adran briffyrdd i godi ymwybyddiaeth gan fod parcio yma eisioes yn broblem. CET

7 Siarter Cymuned ar y Cyd Cyngor Sir Ynys Mon

Trafodwyd yr angen i fabwysiadu y Siarter, cytuno y buasai y Cyngor Cymuned yn fodlon ei fabwysiadu ar yr amod y buasai y Cyngor Sir yn cadw at eu rhan nhw o'r fargen. Gofynnwyd os oedd unrhyw gorff annibynnol yn monitro y Siarter ac sut yr oedd yn gweithio. CET

8 Cyfrifon

8.1 Roedd y Clerc wedi paratoi cyfrifon y Cyngor hyd ddiwedd Awst er gwybodaeth, a chafwyd esboniad a chymeradwyaeth o'r taliadau yn y cyfnod hwnw.

8.2 Adroddiad Hacker Young – mae'r adroddiad wedi ei anfon yn ol er mwyn ei gymeradwyo a'i arwyddo eto. Roedd tri pwynt wedi ei godi gan yr archwilwyr sef –

- 1) Bod angen enw y Cyngor mewn blwch ar ben y dudalen gyntaf (wedi ei gwblhau)
- 2) Bod angen llenwi'r ffigyrau ar gyfer asedau sefydlog (mae'r Clerc wedi said a Gwyn Roberts i gael y ffigyrau cywir ar gyfer y flwyddyn ariannol)
- 3) Angen esboniad pam nad oedd TAW wedi ei hawlio'n ol (mae TAW ar gyfer 2012/13 wedi ei hawlio'n ol, ond ni chafwyd y taliad nes y flwyddyn ariannol nesaf – 2013/14)

Roedd pawb yn bresennol yn hapus a'r esboniadau ac fe dderbynwyd yr adroddiad. Y Clerc i'w anfon yn ol at Hacker Young gyda copi o'r cofnodion ac esboniad par y taliad TAW. CET

9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Gwefan

Mae grant o hyd at £500 ar gael i'r Cyngor gael datblygu gwefan. Penderfynnwyd na fydd y Cyngor yn datblygu gwefa, ond y byddai yn diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael i'r Gymuned y yr hysbysfwrdd ger y siop. CET

9.2 Hyfforddiant Cod Ymddygiad

Mae Hyfforddiant wedi ei drefnu gan y Cyngor Sir ddiwedd Medi i hyd at dri aelod o'r Cyngor. Cytuno y buasai'r Cadeirydd a'r Clerc yn mynychu ac yn adrodd yn ol. CET

9.3 Gwaith Ffordd

Mae llythyr wedi dod i law yn amlinellu bod peth gwaith ailwynebu yn cychwyn ar rai o'r lonydd yn fuan, ac y bydd gwaharddiad dros dro ar draffig trwodd.

9.4 Sbwriel

Mae sbwriel yn broblem yn y gilfan ar Lon Gadfa. Mae arwydd yno eisioes i atgoffa pobl i beidio a gadael eu sbwriel, ond mae wedi diflannu i fewn i'r clawdd. Penderfynnu ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn oes modd clirio'r gilfan a thorri'r clawdd. CET

9.5 Ffordd rhwng Tros y Mynydd Uchaf a Tros y Mynydd Isaf

Mae nifer o gerbydau mawr yn cael eu hanfon ar hyd y ffordd yma (gan sat-nav?) ac yn cael yn styc ar y gornel. Penderfynnu ysgrifennu i Mon Williams yn gofyn am arwydd i ddweud nad yw'r lon yn addas i gerbydau mawr, ac i beidio dilyn cyfarwyddiadau sat-nav. CET

10 Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf

Hydref 1af, 2013; Tachwedd 12, 2013; Rhagfyr 10, 2013

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8yh.

CET09/2013